Julie James AC/AM
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-911
Ein cyf/Our ref JJ/06697/19

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deisebu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

18 Hydref 2019

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Hydref ynghylch Deiseb P-05-911 Dylid Diogelu Coed Yw Hynafol Cymru ac am y cyfle i ymateb.

Mae coed hynafol a chynhenid (gan gynnwys Coed Yw) yn adnoddau diwylliannol sy'n cysylltu pobl â lleoedd, yr amgylchedd a diwylliant. Maent hefyd yn sicrhau parhad o ran cynefinoedd o fewn tirweddau gwledig a threfol. Mae ein strategaeth Coetiroedd i Gymru: https://llyw.cymru/coetiroedd-i-gymru-strategaeth?_ga=2.153548728.1092647370.1571038960-916196719.1558429378 yn amlinellu'r dull polisi ar gyfer diogelu coetiroedd. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod gan goetiroedd a choed hynafol swyddogaeth hollbwysig o safbwynt darparu gwahanol wasanaethau ecosystem.

Mae'r strategaeth yn nodi'n glir bod Llywodraeth Cymru'n awyddus i sicrhau bod tirweddau coed cyfredol a hanesyddol yn cael eu diogelu a bod coed unigol, coed hynafol a choed cynhenid yn ein hardaloedd trefol ac yng nghefn gwlad yn cael eu deall yn well, eu diogelu'n well a'u rheoli'n well o ran eu pwysigrwydd diwylliannol, eu hansawdd esthetig a'u treftadaeth.

O safbwynt diogelu coed Yw hynafol yn fwy cyffredinol, mae Polisi Cynllunio Cymru 10 (PCC): https://llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru?_ga=2.200094894.1092647370.1571038960-916196719.1558429378 yn nodi polisïau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chynllunio defnydd tir. Mae PCC yn ystyriaeth berthnasol wrth i ni wneud penderfyniad ynghylch cais cynllunio. Mae PCC yn cyflwyno fframwaith cadarn ar gyfer diogelu coed, coetiroedd a pherthi; byddai hyn yn berthnasol i ddiogelu coed Yw hynafol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae paragraff 6.4.26 o PCC yn nodi, "*Mae coetiroedd hynafol a choetiroedd lled-naturiol a choed hynafol, aeddfed a threftadaeth unigol yn adnoddau naturiol na ellir mo'u hadfer, ac maent yn werthfawr o ran tirwedd, bioamrywiaeth a diwylliant. Dylai coed a choetiroedd o'r fath gael eu gwarchod rhag datblygiad a fyddai'n arwain at eu colli neu eu dirywio oni bai fod buddiannau cyhoeddus arwyddocaol a chlir o wneud hynny; dylai'r mesurau gwarchod hyn atal gweithrediadau a allai achosi difrod a cholled diangen*."

Mae paragraff 6.4.25 yn nodi, "*ni ddylid caniatáu cael gwared ar goetir yn barhaol oni byddai hynny'n sicrhau buddiannau cyhoeddus arwyddocaol a chlir*. *Lle ceir gwared ar goetir neu goed fel rhan o gynllun arfaethedig, bydd disgwyl i ddatblygwr blannu coed yn eu lle*."

Yn ogystal â hyn, a chan gefnogi'r fframwaith polisi uchod yn PCC, mae Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn rhoi pwerau i Awdurdodau Cynllunio Lleol ddiogelu coed, lle y byddai hynny o fudd i'r amwynder drwy wneud Gorchymyn Diogelu Coed. Prif effaith Gorchymyn Diogelu Coed yw gwahardd pobl rhag torri i lawr, dadwreiddio, topio, tocio, difrodi'n fwriadol neu ddinistrio'n fwriadol goeden neu goed heb gydsyniad yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Gallai coed sydd â Gorchymyn Diogelu Coed fod yn bwysig i'r gymuned ehangach, er mae llawer ohonynt mewn gerddi unigol. Gall aelodau o'r cyhoedd neu berchennog y goeden ofyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ddiogelu coeden neu goed drwy wneud Gorchymyn Diogelu Coed. Mater i'r Awdurdod Cynllunio Lleol yw'r penderfyniad o ran gwneud Gorchymyn Diogelu Coed mewn perthynas â choeden neu goed penodol. Mae gneud gwaith ar goed a ddiogelir heb gydsyniad yn drosedd a allai arwain at ddirwy sylweddol.

Yn gywir,

Julie James AC/AM
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government